

Grŵp Llywodraethu NOS - Diweddariad I Randdeiliaid: Chwarter 2 (Medi 2023)

Cynnydd ar gaffael Safonau a Fframweithiau (S&Ff) 23/24

Mae cyfanswm o 32 o gyfresi NOS wedi'u comisiynu i'w hadolygu/datblygu eleni: o fewn galwedigaethau sy'n amrywio o Werthu, Cerbydau Trydan a Hybrid, a Phrosesu a Rheoli Trin Dŵr i Effeithiau Arbennig Corfforol a Gweithdrefnau Cosmetig Anlawfeddygol. Mae'r rhestr lawn o Gyfresi sy'n cael eu hadolygu ar gael yn Atodiad 1. Mae datblygwyr NOS bellach wrthi'n dechrau gweithgareddau ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ledled y DU. Mae 12 contract wedi'u cyhoeddi ar gyfer NOS sydd wedi'u nodi i'w cyfieithu i'r Gymraeg, o fewn rolau sy'n amrywio o Bysgodfeydd i Wasanaethau Fferylliaeth. Mae cynhyrchion eraill sy'n benodol-i-genedl, gan gynnwys SVQs a Phrentisiaethau ar gyfer Gogledd Iwerddon, hefyd wedi'u comisiynu.

Diweddariad Cronfa Ddata NOS

Ar hyn o bryd mae'r Gronfa Ddata NOS newydd yn y cyfnod sefydlu: gwnaed newidiadau swyddogaethol a nodwyd, gan gynnwys y materion a nodwyd wrth ddefnyddio swyddogaeth Chwilio NOS. Yn ogystal, mae'r holl newidiadau a nodwyd wedi'u gwneud i'r datblygwr a'r porth gweinyddu. Mae gwaith pellach yn parhau i lanhau rhywfaint o'r data a sicrhau bod chwiliadau yn dychwelyd y fersiynau diweddaraf o NOS. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i ganmol a bydd yn cael ei flaenoriaethu gan SDS dros yr wythnosau nesaf.

Mae nodi datrysiad cynnal newydd ar gyfer Cronfa Ddata NOS bellach ar y gweill, sy'n cael ei oruchwyllo gan SDS Procurement.

Dylid adrodd am unrhyw faterion pellach ynghylch naill ai ymarferoldeb neu ddata, yn uniongyrchol wrth SDS trwy'r cyfeiriad e-bost canlynol: nos@sds.co.uk

Canfyddiadau gweithdai LMI

Cyfarfu aelodau NOS GG ar gyfer gweithdy yn ddiweddar i edrych ar y map proses presennol ar gyfer cynnwys a defnyddio LMI yn y system NOS. Roedd yr aelodau'n cydnabod bod llawer o arfer da eisoes, fodd bynnag, gwnaed ymrwymadau yn Strategaeth NOS a'r cynllun 5 mlynedd cysylltiedig i wella ar yr hyn sydd yno.

Nododd NOS GG fanteision ac anfanteision y dull LMI cyfredol, a nododd feysydd allweddol i'w gwella, gan gynnwys uwchraddio triongli tystiolaeth LMI o ystod o ffynonellau a'r angen i gael sylfaen dystiolaeth fwy cynhwysfawr ar gyfer datblygiadau NOS, er mwyn cynyddu hygyrdd yn y broses datganiad galw. Cytunodd NOS GG fod angen templed datganiad galw manylach, gyda meysydd newydd gorfodol yn cynnwys rhesymeg fwy cadarn. Nodwyd y tri cham allweddol ar gynhyrchu a defnyddio LMI:

- Triongli LMI (Gorffennaf i Fedi)
- Y datganiad galw (Hydref i Ragfyr)
- Y broses dendro (Ionawr i Fawrth).

Y nod yw i NOS GG/S&Ff gytuno ar flaenoriaethau NOS 2024/25 cyn diwedd Mawrth 2024. Bydd angen trafodaeth bellach maes o law, ar flaenoriaethu cynhyrchion NOS, wedi'i llywio'n rhannol gan y gweithgareddau peilot a nodir isod.

Gweithgareddau peilot

Yn dilyn y gweithdy LMI, cytunwyd y dylai'r NOS GG gomisiynu sawl darn o waith yr hydref hwn, er mwyn gwella'r sylfaen dystiolaeth:

- Crynodeb diduedd o'r data presennol a'r negeseuon LMI lefel uchel "o'r brig i lawr" sydd ar draws y DU, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol
- Gweithgaredd untro traws sector i gasglu gwybodaeth am Flaenoriaethau Galwedigaethol Sectoraidd (SOPs)
- Cynhelir cynllun peilot gan Lantra ac Enginuity, gan ddefnyddio safonau prentisiaethau presennol yr Alban fel sail ar gyfer adolygu'r NOS. Gofynnir i'r ddau gorff groniclo eu dull a'u canfyddiadau, a darparu templed ar sut y gallai hyn hefyd weithio i sectorau eraill yn y dyfodol.

Bydd diweddariad ar yr holl weithgareddau peilot yn cael ei ddarparu yn y cylchlythyr chwarterol nesaf.

Bydd templed / rhesymeg drafft newydd ar gyfer datganiad galw NOS hefyd yn cael ei ddatblygu a'i ddosbarthu ar gyfer defnydd peilot ar unwaith yr hydref hwn; Bydd adborth yn cael ei wahodd gan gyflenwyr presennol. Bydd meysydd newydd yn cael eu hychwanegu at y ddogfen dempled i gynhyrchu mwy o wybodaeth am y cyfresi NOS dan sylw, y galwedigaethau y maent yn eu tanategu, a ffynhonnell tystiolaeth o alw gan gyflogwyr a rhanddeiliaid eraill yn y sector.

NOS Cymraeg

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Merfyn Morgan, ymgynghorydd NOS Cymraeg, i nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol o NOS Cymraeg, ac i roi ystyriaeth i gyfieithu NOS ar gyfer galwedigaethau penodol. Mae Merfyn a swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chymwysterau Cymru; mae bylchau wedi'u nodi ac mae costau a blaenoriaethau cyfieithu yn cael eu pennu. Bydd swyddogion a Merfyn yn mynychu cyfarfod gyda Grŵp Iaith Gymraeg Cyrrff Dyfarnu Cymwysterau Cymru ddiwedd mis Hydref, i hyrwyddo argaeledd NOS Cymraeg a manteision defnyddio NOS Cymraeg wrth ddatblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg, fel dewis arall i gyfieithu'r cymwysterau Saesneg yn uniongyrchol. Mae NOS Cymraeg yn cynnig cyfieithiadau cywir a chyson o'r derminoleg dechnegol sy'n benodol i sector. Gall defnyddio NOS Cymraeg osgoi ailadrodd/dyblygu ymdrechion cyfieithu a sicrhau bod cynnwys cymwysterau cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel.

NOS Pan /Aml-sector

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ar nodi NOS pan-/amlssector ac mae dadansoddiad wedi'i wneud ar unedau NOS yr ystyrir eu bod yn ddyblygiad/bron yn ddyblygiad.

Gellir dod o hyd i ddatganiad sefyllfa NOS GG wedi'i ddiweddarau yn Atodiad 2, sy'n darparu gwybodaeth bellach a'r camau nesaf arfaethedig.

Atodiad 1 - DATBLYGIADAU NOS 2023/2024

Clwstwr	Cyfes NOS	Math o weithgaredd	Cyflenwr
MODUROL	Cerbyd trydan a hybrid	Adolygiad	IMI
HARDDWCH	Gweithdrefnau cosmetig anlawfeddygol	Newydd	SkillsActive
CREADIGOL	VFX (effeithiau gweledol)	Adolygiad	ScreenSkills
	Effeithiau Arbennig Ffisegol	Adolygiad	
	Cyfyngau Creadigol Generig	Adolygiad	
	Creu Cynnwys Radio a Sain	Adolygiad	
	Llif Gwaith Cynhyrchu	Cyfieithu i'r Gymraeg	ScreenSkills
	Digwyddiadau Byw a Hyrwyddo	Cyfieithu i'r Gymraeg	
	Crefftau Set	Cyfieithu i'r Gymraeg	
DIGIDOL	TG (Dylunio a gweithredu cronfeydd data)	Newydd	ODAG
	Cymorth TG (rheoli a darparu gwasanaethau)	Adolygiad	
	TG (Gwyddor Data)	Adolygiad	
	TG (Peirianeg Rhwydwaith)	Adolygiad	
	TG (Datblygu datrysiad)	Adolygiad	
	TG (Peirianeg cwmwl)	Newydd	
TRYDANOL	Gosod a chynnal a chadw systemau storio batri	Newydd	BSE Skills
PEIRIANNEG	Gosod a Chomisiynu Cyfes 3	Adolygiad	Enginuity
	Gwneud Offer Peirianeg Cyfes 3	Adolygiad	
	Cynnal a Chadw a Gosod Peirianeg Cyfes 2	Adolygiad	
	Cymorth Technegol Peirianeg Cyfes 2	Adolygiad	
	Peirianeg Gweithgynhyrchu Fecanyddol Cyfes 2	Adolygiad	
	Perfformio Gweithrediadau Peirianeg Cyfes 2	Adolygiad	
	Ffabrigo a Weldio 2016/17 Cyfes 2 a 3	Adolygiad (Nifer y NOS wedi'i gyfyngu i 50)	
YNNI	Mesuryddion clyfar	Adolygiad	Energy & Utility Skills
	Tyrbin Gwynt	Adolygiad	
	Rheoliadau Ffitiadau Dŵr /Gorfodi Is-ddeddfau	Adolygiad	
	Prosesu a Rheoli Gwaith Trin yn y Diwydiant Dŵr	Adolygiad	
	Adeiladu Rhwydwaith Aml Ddefnydd	Adolygiad	
	Adeiladu Rhwydwaith Dŵr	Cyfieithu i'r Gymraeg	
GENERIG	Asesiad a Chyngor Effeithlonrwydd Ynni	Adolygiad	II Aspire
IECHYD	Darparu Cyngor ac Eiriolaeth Annibynnol ar Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhan1	Cyfieithu i'r Gymraeg	Workforce Development Trust

	Darparu Cyngor ac Eiriolaeth Annibynnol ar Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhan 2	Cyfieithu i'r Gymraeg	
	Gwasanaethau Fferylliaeth	Cyfieithu i'r Gymraeg	
AR Y TIR	Gweithio gyda choed	Adolygiad	Lantra
	Rheoli Digwyddiadau yn Sector Diwydiannau'r Tir Rhan 1	Cyfieithu i'r Gymraeg	
	Rheoli Pysgodfeydd: Rhan 1	Cyfieithu i'r Gymraeg	
	Rheoli Pysgodfeydd: Rhan 2	Cyfieithu i'r Gymraeg	
	Rheoli Digwyddiadau yn Sector Diwydiannau'r Tir Rhan 2	Cyfieithu i'r Gymraeg	
GWEITHGYNHYRCHU	Gweithgynhyrchu Batri Trydanol	Newydd	Cogent
PAN-/AML-SECTOR	Gwerthiant	Adolygiad	Instructus
	Rheoli Risg	Adolygiad	
RHEILFFYRDD	Peirianeg Rheilffyrdd, Ffordd Barhaol	Adolygiad	National Skills Academy for Rail
	Peirianeg Rheilffyrdd Adeiladu Offer i Wifrau Uwchben 2013, Cyfres 2a3	Adolygiad	
	Peirianeg Rheilffyrdd Signalau 2015 Cyfres 2 a 3	Adolygiad	
	Peirianeg Rheilffyrdd Teleathrebu 2015 Cyfres 2 a 3	Adolygiad	
	Peirianeg Rheilffyrdd Rholstoc Tyniant Cyfres 2 a 3	Adolygiad	
GWYDDONIAETH	Storio Cynnyrch Hydrogen	Newydd	Cogent
	Gwneuthurwr Celloedd Tanwydd Hydrogen	Newydd	
	Dal Carbon	Newydd	
	Ffrwydron, Sylweddau ac Erthyglau	Adolygiad	
	Defnydd o Hydrogen	Newydd	



Datganiad Sefyllfa Grŵp Llywodraethu NOS ar y NOS Pan/Aml Sector

Ym mis Mawrth nododd Grŵp Llywodraethu NOS (NOS GG) yr ymrwymiad yn y [Strategaeth NOS \(Adnoddau - National Occupational Standards \(ukstandards.org.uk\)\)](#) i sefydlu a chyhoeddi set o NOS pan / amlsector a'i fwriad i adolygu a rhesymoli nifer y NOS ar y gronfa ddata.

[Datganiad sefyllfa gan Grŵp Llywodraethu NOS NOS Pan/Aml Sector - National Occupational Standards \(ukstandards.org.uk\)](#)

Ers hynny, dadansoddwyd cronfa ddata NOS i nodi dyblygu/bron â dyblygu gyda'r pedair cyfres ganlynol o NOS / amlsector:

- Busnes a Gweinyddu
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Dysgu a Datblygu
- Gwerthiannau.

Ystyriwyd a ddylid cadw, ailosod neu ddileu'r dyblygiadau ac mae ymgynghori wedi digwydd gyda chyrff dyfarnu, rheoleiddwyr cymwysterau a'r sefydliadau pennu safonau o gwmpas yr ymarfer hwn.

Cyn bo hir, bydd NOS GG yn cyhoeddi rhestr o'r NOS perthnasol y bernir eu bod yn ddyblygiad ac a fydd yn cael eu tynnu o'r gronfa ddata NOS neu bydd NOS pan/amlsector yn cael eu rhoi yn eu lle nhw. Bydd rhanddeiliaid yn cael eu hannog i ystyried effaith hyn ar eu cynnyrch/gwasanaethau.

Ni fydd modd chwilio am NOS sy'n cael eu tynnu o'r gronfa ddata mwyach, fodd bynnag, bydd gweinyddwyr NOS yn gallu eu cyrraedd, yn ddieithriad, os bydd angen hynny ar ôl archifo.

Hydref 2023